**What is cancer animation – script for translation agency**

| **English** | **Translated language** |
|---|---|
| What is cancer? | Beth yw canser? |
| Cancer starts in our cells. | Mae canser yn dechrau yn ein celloedd. |
| Cells make up the organs and tissues of our body. | Mae organau a meinweoedd ein corff wedi'u gwneud o gelloedd. |
| Each cell has a control centre called a nucleus. | Mae gan bob cell ganolfan reoli o'r enw niwclews. |
| A nucleus gets signals from the body to say when the cell should divide and grow and when it should stop. | Mae niwclews yn derbyn signalau gan y corff i ddweud pryd dylai'r gell wahanu a thyfu a phryd dylai stopio. |
| The nucleus then tells the cell what to do. | Yna, mae'r niwclews yn dweud wrth y gell beth i'w wneud. |
| Usually cells divide in a controlled way to make new cells. | Fel arfer mae'r celloedd yn rhannu mewn ffordd reolaidd i greu celloedd newydd. |
| When a cell is no longer needed or cannot be repaired, it gets a signal to stop working and die. | Pan nad oes angen cell mwyach neu does dim modd ei thrwsio, mae'n derbyn signal i stopio gweithio a marw. |
| Sometimes the signals go wrong and the cell becomes abnormal. | Weithiau mae'r signalau'n mynd o'r chwith a gall y gell fynd yn annormal. |
| The cells keep dividing and make more abnormal cells. | Mae'r celloedd yn parhau i rannu a gwneud mwy o gelloedd annormal. |

| | |
|---|---|
| These cells form a lump called a tumour. | Mae’r celloedd hyn yn ffurfio lwmp o’r enw tiwmor. |
| Not all lumps are cancer. | Dydy pob lwmp ddim yn ganser. |
| Doctors can take some cells from the lump. This is called a biopsy. | Gall doctoriaid dynnu rhywfaint o gelloedd o’r lwmp. Yr enw am hyn yw biopsi. |
| They will look at the cells under a microscope and check if the lump is cancer or not. | Byddan nhw’n edrych ar y celloedd o dan ficrosgop a gwirio os yw’r lwmp yn ganser ai peidio. |
| When talking about cancer, it helps to know a little bit about the lymphatic system. | Wrth siarad am ganser, mae’n helpu gwybod dipyn bach am y system lymffatig. |
| What is the lymphatic system? | Beth yw’r system lymffatig? |
| The lymphatic system helps to protect us from infection and disease. | Mae’r system lymffatig yn ein diogelu ni rhag heintiau a chlefydau. |
| It is part of the immune system. | Mae’n rhan o’r system imiwnedd. |
| It’s made up of groups of lymph nodes throughout the body. | Mae wedi ei wneud o grwpiau o nodau lymff trwy gydol y corff. |
| These are also called glands and are connected by fine tubes. | Enw arall ar y rhain yw chwarennau ac maen nhw wedi eu cysylltu â thiwbiau mân. |
| They filter out germs and disease. | Maen nhw’n hidlo allan germau ac afiechyd. |
| When you have an infection, lymph nodes often swell as they fight the infection. | Pan fydd gennych chi haint, bydd nodau lymff yn aml yn chwyddo fel maen nhw’n ymladd â’r haint. |
| Sometimes, cancer cells spread from where the | Weithiau, bydd celloedd canser yn |

| | |
|---|---|
| cancer first started to other parts of the body. | lledaenau o le cychwynnodd y canser i rannau eraill o’r corff. |
| They can travel through the lymphatic system or the blood. | Maen nhw’n gallu teithio drwy’r system lymffatig neu’r gwaed. |
| When the cells reach another part of the body they may begin to grow and form another tumour. | Pan fydd y celloedd yn cyrraedd rhan arall o’r corff, gallant ddechrau tyfu a ffurfio tiwmor arall. |
| We’re getting better at finding and treating cancer and many people with cancer can be cured. | Rydyn ni’n gwella at ganfod a thrin canser ac mae llawer gyda chanser yn gallu cael eu hiachau. |
| Even if a cancer cannot be cured, it can often be controlled with treatment. | Hyd yn oed os nad oes modd gwella canser, yn aml gellir ei reoli gyda thriniaeth. |
| Your doctor or nurse will talk to you about this. | Bydd eich meddyg neu nyrs yn siarad â chi am hyn. |
| Macmillan Cancer Support | Cymorth Canser Macmillan |
| For information, support or just someone to talk to, call **0808 808 00 00** or visit **macmillan.org.uk** (in English this is spoken as ‘zero eight, zero eight, eight zero eight, double zero, double zero’ so please use this for each language – whatever the translation is) | Am wybodaeth, cymorth neu rywun i siarad â nhw, galwch **0808 808 00 00** neu ewch i **macmillan.org.uk** |